# Adroddiad Cyfarwyddwr Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru - mis Chwefror 2022

Adroddiad Cyfarwyddwr Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru - mis Chwefror 2022

Papur FSAW 22/02/03
I'w drafod
**Diweddariad gan y Cyfarwyddwr**

## Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r papur atodedig yn cyfeirio at faterion a nodwyd gan y Prif Weithredwr yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021. Mae cofnodion llawn y cyfarfod hwnnw ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) (Saesneg yn unig). Mae'r papur hwn hefyd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n berthnasol i Gymru ac yn sail i'r diweddariad i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.

2. Bydd Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru yn ategu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gyda diweddariad ar lafar, lle bo'n briodol.

3. Gwahoddir aelodau i:

- nodi'r diweddariad
- gwahodd y Cyfarwyddwr i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach.

Cyswllt yr ASB yng Nghymru: Lucy Edwards
Lucy.edwards@food.gov.uk

Papur FSAW 22/02/03
I'w drafod
**Diweddariad gan y Cyfarwyddwr**

## 1. Crynodeb o Adroddiad y Prif Weithredwr i Gyfarfod Agored y Bwrdd ar 8 Rhagfyr 2021

1.1. Cafodd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr (FSA 21/12/03)

## 2. Adroddiad Cyfarwyddwr Cymru ar Faterion yn ymwneud â Chymru

**Ymgysylltu'n allanol**

2.1. Rwyf wedi bod yn rhan o'r cyfleoedd ymgysylltu canlynol ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar 21 Hydref 2021. Sylwch fod yr ymgysylltiad wedi lleihau yn ystod y cyfnod hwn er mwyn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer effaith yr amrywiad Omicron:

- 10 Tachwedd – Cyfarfod ag Awdurdodau Lleol Rhanbarth De Ddwyrain Cymru

- 25 Tachwedd – Cyfarfod Cynllunio Busnes Safonau Masnach Cymru
- 9 Rhagfyr – Ymweliad Theatr mewn Addysg yr ASB yng Nghymru ag ysgol gynradd Ton-yr-Ywen gydag Emily Miles, y Prif Weithredwr
- 16 Rhagfyr – Cyfarfod Cyswllt Chwarterol yr ASB yng Nghymru a Llywodraeth Cymru
- 24 Ionawr – Cyfarfod Gr?p Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru
- 25 Ionawr – Cyfarfod rhagarweiniol gyda Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella, Atal a Hybu Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru

**Diweddariad COVID-19**

2.2 Mae’r ASB wedi parhau i adolygu’r cyngor a’r canllawiau i awdurdodau lleol o ran gweithredu’r cynllun adfer. Ym mis Rhagfyr 2021 gwnaethom ysgrifennu at awdurdodau lleol gan fod nifer yr achosion o COVID-19 yn cynyddu a chyfyngiadau yng Nghymru yn cael eu tynhau. Cynghorwyd awdurdodau lleol i barhau i ddilyn y cynllun adfer lle y gallent wrth i adnoddau gael eu dargyfeirio ac i ystyried cyngor Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ogystal ag asesiadau risg lleol. Rydym ni wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol ar 02 Chwefror 2022 nawr bod cyfyngiadau wedi dychwelyd i lefel 0 ac wedi dweud y dylai awdurdodau lleol, wrth i adnoddau ddychwelyd i reolaethau swyddogol ar fwyd, fod yn ailddechrau ymyriadau a raglennir yn unol â cherrig milltir cam 2 a osodwyd yn y Cynllun Adfer, yn ogystal ag ymgymryd â’r rheolaethau a’r gweithgareddau eraill a nodir.

**Adroddiad Blynyddol ar Safonau Bwyd**

2.3 Mae’r ASB yng Nghymru yn parhau i gyfrannu at yr Adroddiad Blynyddol. Mae disgwyl i’r adroddiad gael ei osod yn yr haf.

**Rheolaethau mewnforio**

2.4 Ar 19 Ionawr 2022, cyhoeddodd Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi, ddatganiad ysgrifenedig yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y Seilwaith Rheoli Ffiniau. Mae’r ASB yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

## Ymgynghoriadau

**Byrgyrs heb eu coginio'n drylwyr**

2.5 Mae’r canllawiau byrgyrs cig eidion heb eu coginio’n drylwyr wedi'u hadolygu a’u diweddaru a lansiwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar 27 Ionawr 2022. Mae’r newidiadau i’r canllawiau wedi’u cynllunio i’w gwneud yn gliriach ac yn haws i’w deall a bydd y canllawiau o fudd i fusnesau a swyddogion awdurdodau lleol. Rydym ni hefyd wedi gofyn i randdeiliaid ystyried a ddylai’r term ‘heb eu coginio’n drylwyr’ gael ei ddisodli gan derm symlach fel amrwd, pinc neu wedi’u coginio’n ysgafn. Ein nod yw cyhoeddi ein hymatebion i’r adborth o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad.

**Cynhyrchion wedi’u Rheoleiddio (GMO)**

2.6 Mae naw GMO wedi’u cyflwyno i’w hawdurdodi yng Nghymru, Lloegr a’r Alban lle caiff y penderfyniad o ran awdurdodi ei wneud gan y Gweinidogion priodol ar gyfer pob un o wledydd Prydain Fawr. Dyma swyddogaeth a gyflawnid yn flaenorol ar lefel yr Undeb Ewropeaidd (UE). Ers diwedd y cyfnod pontio, cyfrifoldeb yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yw asesu diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig (DU), a chyfrifoldeb yr awdurdod priodol perthnasol yw awdurdodi cynhyrchion wedi’u rheoleiddio ym mhob gwlad. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 25 Tachwedd 2021 a daeth i ben ar 25 Ionawr 2022. Bydd safbwyntiau terfynol yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ynghyd â’r safbwyntiau a gesglir trwy’r ymgynghoriad hwn, yn cael eu hystyried

ochr yn ochr â barn Swyddogion y Llywodraethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, ac adrannau eraill Llywodraeth y DU heblaw'r ASB er mwyn llywio penderfyniadau Gweinidogion o ran a ddylid awdurdodi'r GMOs unigol i'w defnyddio yng Nghymru, yr Alban, a Lloegr.

2.7 Mae chwe Bwyd Newydd wedi'u cyflwyno i'w hawdurdodi ym mhob un o wledydd Prydain Fawr, lle caiff y penderfyniad o ran awdurdodi ei wneud gan y Gweinidogion priodol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Dyma swyddogaeth a gyflawnid yn flaenorol ar lefel yr Undeb Ewropeaidd (UE). Ers diwedd y cyfnod pontio, cyfrifoldeb yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban yw asesu diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn y DU, a chyfrifoldeb yr awdurdod priodol perthnasol yw awdurdodi bwydydd newydd ym mhob un o wledydd Prydain Fawr. Mae'r ymgynghoriad ar agor rhwng 17 Rhagfyr 2021 a 11 Chwefror 2022. Bydd safbwyntiau terfynol yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban, ynghyd â'r safbwyntiau a gesglir trwy'r ymgynghoriad hwn, yn cael eu hystyried ochr yn ochr â barn Swyddogion y Llywodraethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, ac adrannau eraill Llywodraeth y DU heblaw'r ASB er mwyn llywio penderfyniadau Gweinidogion o ran a ddylid awdurdodi'r bwydydd newydd unigol i'w defnyddio yng Nghymru, yr Alban, a Lloegr.

**Labelu Alergenau Rhagofalus (PAL): Ymgynghoriad 'gallai gynnwys'**

2.8 Diben yr ymgynghoriad hwn, sy'n cael ei gynnal rhwng 6 Rhagfyr 2021 a 14 Mawrth 2022 yw cael gwybodaeth a safbwyntiau mewn perthynas â darparu labelu alergenau rhagofalus a gwybodaeth ragofalus am alergenau. Mae'r ddeddfwriaeth labelu gyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchion bwyd nodi presenoldeb unrhyw un o'r 14 prif alergen a ddefnyddir fel cynhwysyn neu gymhorthyn prosesu. Fodd bynnag, mewn achosion lle bo risg o groeshalogi alergenau yn anfwriadol (er enghraifft, lle mae llawer o fwydydd yn cael eu paratoi yn yr un gegin), ac mae'r busnes bwyd wedi pennu na ellir rheoli'r risg yn ddigonol, yr arfer gorau yw defnyddio datganiad labelu alergenau rhagofalus i gyfleu'r risg hon. Bydd adborth yn helpu'r ASB i ystyried dulliau posibl ar gyfer labelu alergenau rhagofalus ar gyfer bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw a gwybodaeth ragofalus am alergenau ar gyfer bwydydd heb eu pecynnu ymlaen llaw, fel bod yr wybodaeth:

- yn cael ei chyfathrebu i ddefnyddwyr yn gliriach ac yn fwy cyson, mewn ffordd ddealladwy ac ystyrlon o ran ffurf a chynnwys yr wybodaeth
- yn seiliedig ar brosesau cymesur a safonol ar gyfer asesu, rheoli a chyfathrebu'r risg o groeshalogi alergenau gan fusnesau bwyd

**Adolygiad o Reoliad a Ddargedwir 2016/6 ar fewnforio bwyd o Japan yn dilyn damwain niwclear Fukushima**

2.9 Fe gafodd Rheoliad 2016/6 ei ddargadw ym Mhrydain Fawr yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac mae'n cymhwyso rheolaethau manylach ar rai bwydydd wedi'u mewnforio o Japan o ganlyniad i ddamwain niwclear Fukushima ym mis Mawrth 2011. Mesur brys oedd hwn i ddiogelu defnyddwyr rhag bwyd wedi'i fewnforio a allai fod wedi ei halogi â deunydd ymbelydrol a ryddhawyd yn dilyn y ddamwain niwclear. Mae Rheoliad a ddargedwir 2016/6 yn pennu'r lefelau uchaf o gesiwm ymbelydrol ar fwyd a bwyd anifeiliaid o Japan. Fodd bynnag, gellir mewnforio mwyafrif y bwydydd o Japan eisoes i'r DU heb unrhyw reolaethau manylach gan fod lefelau ymbelydredd yn isel iawn ac ymhell islaw'r lefelau uchaf hyn. Mae'r rheolaethau manylach yn berthnasol i nifer gyfyngedig o fwydydd gan gynnwys rhai rhywogaethau o bysgod, madarch gwyllt a llysiau Japaneaidd wedi'u fforio y mae rheolaethau manylach yn parhau i fod ar waith ar eu cyfer. Dim ond mewn symiau bach y mae'r cynhyrchion hyn yn cael eu mewnforio i'r DU, yn bennaf ar gyfer bwytai sy'n arbenigo mewn bwyd Japaneaidd a defnyddwyr bwydydd traddodiadol Japaneaidd. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 10 Rhagfyr 2021

a daw i ben ar 11 Chwefror 2022.

**Bil Bwyd (Cymru)**

2.10 Cafodd cynigion gan yr Aelod Seneddol Peter Fox i gyflwyno Bil Bwyd (Cymru) newydd ei gefnogi gan bleidlais yn y Senedd ar 17 Tachwedd 2021. Byddai’r Bil yn sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru i gryfhau diogelwch bwyd, gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru, a gwella dewis i ddefnyddwyr. Bellach mae gan Peter Fox AS 13 mis (yn dechrau o fis Tachwedd 2021) i baratoi’r manylion a chyflwyno’r Bil yn ffurfiol i’r Senedd. Bydd Aelodau’r Senedd yn pleidleisio ar y cynigion, ac os bydd yn llwyddiannus, bydd Bil Bwyd (Cymru) yn symud drwy’r camau craffu gan y Senedd.

**Diweddariad ar Bwerau’r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd**

2.3 Ers cryn amser, mae’r ASB wedi bod yn ceisio rhoi’r pwerau cyfreithiol priodol i’w Huned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) i arwain ymchwiliadau’n effeithiol ac i ddod ag achosion o droseddau bwyd difrifol, cyfundrefnol a chymhleth i erlynwyr yn annibynnol. Mae’r mater wedi’i ystyried yn ddiweddar yn Nh?’r Arglwyddi gyda diwygiad llwyddiannus (a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Rooker) i Fesur yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd a fyddai’n galluogi’r Uned i gael pwerau. Bydd y Bil yn cael ei drafod ymhellach wrth iddo fynd drwy’r Senedd.

**Cyllid**

2.5 Rydym ni’n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y broses sy’n cadarnhau ein cyllid ar gyfer 2022/23 ynghyd ag unrhyw feysydd ffocws y bydd y Dirprwy Weinidog yn gofyn amdanynt. Dylai’r broses hon ddod i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2022, er bod hyn yn amodol ar broses pennu cyllideb Llywodraeth Cymru drwy Senedd Cymru.

## 3. Cyfarwyddwr Cymru yn Bwrw Golwg Ymlaen

3.1 Rhwng nawr a chyfarfod agored nesaf â thema Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar 21 Ebrill 2022, rydw i wedi ymrwymo i'r pethau hyn sy'n berthnasol i'r ASB yng Nghymru:

- 17 Chwefror – Cyfarfod cyswllt yr ASB/Llywodraeth Cymru
- 10 Mawrth – Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd i Staff yr ASB yng Nghymru
- 5 Ebrill – Cyfarfod y Gr?p Cynghori ar Ddiogelu Iechyd
- Dyddiad i'w gadarnhau – Cyfarfod ag aelodau Cyfarwyddwyr Diogelu’r Cyhoedd, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod sut y gallwn barhau i gryfhau gweithio ar y cyd.

Nathan Barnhouse
Cyfarwyddwr, yr ASB yng Nghymru
Chwefror 2022